Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

Diploma Lefel 5 mewn Cydlynu Ôl-osod a Rheoli Risg (Rhan-Amser) Dechrau Ionawr

Nod y cwrs hwn yw rhoi gwybodaeth a sgiliau penodol i ddysgwyr ar ofynion ôl-osod domestig i fodloni'r safonau a nodir yn PAS2035. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i gwmpasu cydlynu prosiectau o'r dechrau i'r diwedd o ddechrau prosiect ôl-osod i'r trosglwyddiad a'r gwerthusiad parhaus.

Ar ôl cymhwyso, bydd dysgwyr wedi'u cyfarparu â gwybodaeth a sgiliau penodol i gyflawni prosiectau ôl-osod domestig i'r safonau a nodir yn PAS2035.

Gofynion Mynediad

Rhaid i ddysgwyr fod dros 18 oed a bydd angen iddynt feddu ar gymhwyster proffesiynol mewn pwnc sy'n gysylltiedig ag adeiladu fel pensaernïaeth, arolygu, peirianneg neu reoli adeiladu ar Lefel 4 neu NVQ ar Lefel 3 neu uwch gydag o leiaf 5 mlynedd o brofiad mewn pwnc sy'n gysylltiedig â rheoli neu oruchwylio prosiectau adeiladu a phrosiectau adeiladu domestig.

Rhagolygon Gyrfa

Bydd cynrychiolwyr llwyddiannus yn cael mwy o gyfleoedd cyflogaeth fel Cydlynydd Ôl-osod ar gyfer prosiectau ôl-osod domestig a gyflwynir o dan PAS 2035.

Modiwlau'r cwrs

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys 13 uned orfodol:

- Cyflwyniad i ôl-osod o dan PAS2035
- Asesu Anheddau ar gyfer Ôl-osod
- Sicrhau Ansawdd Ôl-osod a Rheoli Risg
- Ffiseg Adeiladu – Rheoli Risg Lleithder
- Ffiseg Adeiladu – Effeithlonrwydd Thermol
- Gwella Ffabrig yr Adeilad – Lloriau a Toeau
- Gwella Ffabrig yr Adeilad – Waliau a Ffenestri
- Gwella'r Gwasanaethau Adeiladu – Gwresogi, Dwr Poeth, Goleuo a Phwer

- Gwella'r Gwasanaethau Adeiladu – Systemau Ynni Adnewyddadwy
- Gwella Aerglosrwydd ac Awyru
- Gwerthuso Opsiynau Gwella a Chynlluniau Ôl-osod Tymor Canolig
- Profi, Monitro a Gwerthuso Ôl-osod
- Deall y gofynion ar gyfer cyflwyno mesurau i TrustMark

Asesiad

Asesir y cymhwyster drwy gyfuniad o:
– Prawf Gwybodaeth Diwedd y Cymhwyster
– Trafodaeth(au) Proffesiynol
– Astudiaethau Achos Senario

DULL ASTUDIO

WP

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS

Blwyddyn

FFIOEDD

19/20 fees: £2,550